## PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

**10 Mawrth 2021**

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 11.25am; 11.35am - 1.20pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Doedd yna ddim ymddiheuriadau am absenoldeb. Ond roedd Mr Charles Felgate, y Cyfreithiwr, wedi cynghori ei fod yn cael trafferthion cysylltu â'r cyfarfod.

**2. Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| Cais a Chyfeirnod | Aelod(au)/Swyddog(ion) | Gweithred |
|---|---|---|
| *Cofnodion 6(c)isod* NP/20/0407/FUL Dymchwel y garej/gweithdy presennol, ac estyniadau eraill. Moderneiddio'r adeilad presennol ac adeiladu estyniad deulawr newydd i ffurfio newid defnydd i ddarparu llety i weithiwr allweddol (dosbarth C3) sy'n cynnwys 18 ystafell stiwdio hunangynhwysol. Mae'r cynnig yn darparu 9 lle parcio y tu blaen ac yng nghefn yr eiddo gydag un o'r llefydd ar gyfer yr anabl. Hefyd yng nghefn yr eiddo bydd 6 stand i feiciau – Coed- | Cynghorydd P Baker | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais yn cael ei drafod |
| | Cynghorydd M Evans<br>Mrs J James | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan llawn yn y drafodaeth a'r pleidleisio ynghylch y cais. |

| | | |
|---|---|---|
| derw, St. Brides Hill, Saundersfoot | | |
| *Cofnod 6(g)isod* NP/20/0614 6 tŷ fforddiadwy mewn cysylltiad â 6 gweithdy gwaith coed, cyfleuster cymunedol a chyfleuster prosesu a sychu coed. – Allt Pantmaenog, Rhos-y-bwlch, Clunderwen, Sir Benfro, SA66 7QY | Dr RM Plummer | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth a'r pleidleisio ynghylch y cais. |

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2021.

**NODWYD.**

**4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| **Rhif cyfeirnod** | **Cynnig** | **Siaradwr** |
|---|---|---|
| NP/20/04838FUL *Cofnod 6(d) cyfeir* | Newid defnydd y gwesty i annedd sengl a chadw'r 9 ystafell wely ar gyfer staff – St David's Court (yr hen Warpool Court Hotel), Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6BN | Andrew Vaughan-Harries – Asiant |

| | | |
|---|---|---|
| NP/20/0421/OUT<br>*Cofnod 6(e) cyfeir* | Dymchwel yr adeiladau diwydiannol presennol ac adeiladu dau annedd (pob mater wedi'u neilltuo) – yr hen waith Concrid GWLA, y tu ôl 89, Heol Non, Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6NU | Andrew Vaughan-Harries – Asiant |
| NP/20/0576/FUL<br>*Cofnod 6(f) cyfeir* | Ail-leoli'r caffi presennol i adeilad newydd ac ardal patio allanol cysylltiedig – Canolfan Arddio St Ishmaels, Llanismel | Andrew Vaughan-Harries – Asiant |
| NP/20/0614/FUL<br>*Cofnod 6(g) Cyfeir* | 6 tŷ fforddiadwy mewn cysylltiad â 6 gweithdy gwaith coed, cyfleuster cymunedol a chyfleuster prosesu a sychu coed. - Allt Pantmaenog, Rhos-y-bwlch, Clunderwen | Tony Pasternak – Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Noltwn a'r Garn<br>Mark McKenna – Asiant |

**5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, dyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

Am na ymunodd y Cyfreithiwr â'r cyfarfod tan ychydig yn ddiweddarach yn y cyfarfod, derbyniwyd ei adroddiad fel pe bai wedi'i ddarllen.

**NODWYD**

**6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y

ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd bod agenda ychwanegol wedi'i hanfon atyn nhw, ac y byddai'n rhoi ystyriaeth i'r adroddiad ynddo yn gyntaf.

(a) CYFEIRNOD: NP/21/0137/FUL
YMGEISYDD: Bluestone Resorts Ltd.
CYNNIG: Tynnu strwythur pren, gosod cabanau gwyliau, porthdy croeso, strwythurau canolbwynt cymunedol, parc bygi a lloches a maes parcio gwesteion, gyda seilwaith cysylltiedig gan gynnwys ffyrdd cylchrediad mewnol, tirlunio caled a meddal, seilwaith draenio, waliau cynnal a byndiau daear.

LLEOLIAD: Bluestone National Park Resort, Coed Canaston, Arberth

Adroddwyd bod y datblygiad hwn wedi'i leoli ar dir oedd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r atyniad presennol, ac roedd yn gais ar draws ffiniau, gan fod y datblygiad oddi fewn awdurdodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro.

Am fod y datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad o bwys yn ymestyn datblygiad mawr cyfredol oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried ymweliad safle gan y Pwyllgor, i weld y safle ac oddi amgylch, cyn ystyried y cais cynllunio mewn cyfarfod o'r Pwyllgor maes o law.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais er mwyn trefnu ymweliad safle.**

(b) CYFEIRNOD: NP/19/0328/S73
YMGEISYDD: Mr G Perfect
CYNNIG: Amrywio amod rhif 2 o NP/14/0014 – Llain Datblygu Preswylio yn ymyl Llain D.

LLEOLIAD: Lleiniau wrth ymyl Devon Court, 5, Freshwater East, Penfro

Adroddwyd na fyddai'r cais a nodir uchod yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor y diwrnod hwnnw oherwydd mater o drefn y tynnwyd sylw'r swyddogion ato. Byddai'r cais yn cael ei ystyried yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

**NODWYD.**

[Roedd y Cynghorydd P Baker wedi datgan buddiant rhagfarnol yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod tra oedd o dan ystyriaeth.]

(c) CYFEIRNOD: NP/20/0407/FUL
YMGEISYDD: Mr A Evans
CYNNIG: Dymchwel y garej/gweithdy presennol, ac estyniadau eraill. Moderneiddio'r adeilad presennol ac adeiladu estyniad deulawr newydd i ffurfio newid defnydd i ddarparu llety i weithiwr allweddol (dosbarth C3) sy'n cynnwys 18 ystafell stiwdio hunangynhwysol. Mae'r cynnig yn darparu 9 lle parcio y tu blaen ac yng nghefn yr eiddo gydag un o'r llefydd ar gyfer yr anabl. Hefyd yng nghefn yr eiddo bydd 6 stand i feiciau.

LLEOLIAD: Coed-derw, St Brides Hill, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9NP

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i ystyried yng nghyfarfod mis Ionawr y Pwyllgor, pan gafodd ei ohirio i roi cyfle i ymgynghori â Chyngor Cymuned Saundersfoot ynghylch y cynlluniau diwygiedig.

Adroddwyd bod y cais yn cynnwys eiddo preswyl mawr, oedd wedi'i addasu ar ryw adeg yn y gorffennol i ddarparu llety gwyliau, oedd yn cynnwys estyniadau cefn i ddarparu llety ychwanegol ac allanfeydd tân.

Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod Cyngor Cymuned Saundersfoot yn cefnogi'r cynllun diwygiedig, a hefyd i gymryd cyfrif o'r lluniad diwygiedig pellach oedd wedi'i gyflwyno wedi'r cyfarfod diwethaf. Adroddwyd yn y cyfarfod bod lluniadau ychwanegol wedi'u derbyn gan yr Awdurdod ar y dydd Gwener blaenorol oedd yn delio â'r angen am hyrwyddiadau ecolegol. Roedd y rhain wedi'u hanfon at Ecolegydd yr Awdurdod ond doedd dim ymateb wedi dod i law hyd yma. Nodwyd hefyd bod yr Aelodau wedi derbyn gohebiaeth wrth yr Asiant.

Tra bo'r swyddogion wedi dod i'r casgliad bod egwyddor y cynnig yn dderbyniol ac na fyddai'n cael effaith ychwanegol ar gymeriad yr adeilad o edrych arno o olygfa'r stryd, roedden nhw'n dal i ystyried y byddai'r raddfa arfaethedig, ffurf a chrynswth cyffredinol yr estyniad cefn arfaethedig yn y cynllun diwygiedig, yn arwain at effaith tremio ar fwynder cymdogion, ac yn cynrychioli gor-ddatblygiad o'r safle. O'r herwydd roedd y datblygiad arfaethedig yn ei ffurf bresennol yn cael ei ystyried yn groes i nifer o bolisïau oddi fewn CDLl2 ac ni ellid ei gefnogi gan y swyddogion yn y cyswllt hwn. Yr argymhelliad oedd gwrthod ac fe gafodd hyn ei gynnig ai eilio.

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. **Nid yw Polisi 30 o Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cefnogi datblygiad pan mae'n effeithio'n annerbyniol ar fwynder. Mae'r datblygiad arfaethedig oherwydd ei raddfa, ffurf, crynswth a'i leoliad yn cael ei ystyried yn achosi effaith andwyol ar fwynder cymdogion, a bydd yn arwain at effaith ormesol ar anheddau cymdogion. Mae'r datblygiad arfaethedig hefyd yn methu diogelu neu hyrwyddo nodweddion arbennig y rhan hwn o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r cais felly yn cael ei ystyried yn groes i Gynllun Datblygu Lleol 2 a fabwysiadwyd, Polisi 8 (Nodweddion Arbennig), Polisi 14 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) a Pholisi 30 (Mwynder).**

2. **Bydd yr estyniad deulawr arfaethedig yn ymestyn i mewn i ardal yr ardd gefn, tua 15.9 metr o'i fesur o drychiad cefn gwreiddiol yr annedd. Mae hyn yn cael ei ystyried gan swyddogion yn raddfa o ddatblygiad sy'n arwain at or-ddatblygiad o'r safle. Mae'r cais felly yn groes i Gynllun Datblygu Lleol 2, Polisi 8 (Nodweddion Arbennig), Polisi 14 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Polisi 29 (Dylunio Cynaliadwy) a Pholisi 30 (Mwynder).**

*[Penderfynodd y Cadeirydd gymryd y cais nesaf yn groes i'r drefn ar yr agenda]*

| | | |
|---|---|---|
| (d) | CYFEIRNOD: | NP/20/0483/FUL |
| | YMGEISYDD: | Mr P Trier |
| | CYNNIG: | Newid defnydd y gwesty i annedd sengl a chadw'r 9 ystafell wely ar gyfer staff |
| | LLEOLIAD: | St David's Court (yr hen Warpool Court Hotel), Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6BN |

Adroddwyd bod yr eiddo hwn wedi'i restru yn adeilad Gradd II wedi'i godi yn 1870 ar gyfer prifathro Ysgol Côr Cadeirlan Tyddewi ar gyfer ei deulu a chantorion preswyl. Yn 1955 cafodd ei addasu yn westy gwledig 22 o welyau a dyna fu ei ddefnydd cyfreithlon am y 66 mlynedd diwethaf.

Doedd y cais, a oedd gerbron y Pwyllgor i'w ystyried am fod argymhelliad y swyddog yn wahanol i ymateb Cyngor y Ddinas, ddim yn cynnig unrhyw newidiadau o ran adeiledd yr eiddo, heblaw am newid defnydd o westy i annedd breswyl breifat. Roedd caniatâd adeilad rhestredig eisoes wedi'i roi i ganiatáu gwaredu rhaniadau mewnol modern, yn unol â'r defnydd arfaethedig fel annedd breswyl sengl.

Roedd y swyddogion o'r farn, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd, bod y cynnig yn cyfateb i ofynion Polisi 38 o GDLl2 a oedd yn ceisio atal

colli gwestyau yn ddianghenraid. Hefyd ni fyddai'r defnydd o'r eiddo fel preswylfa fawr yn hytrach na gwesty yn cael fawr o effaith ar y natur wledig o'i amgylch.

Fodd bynnag, byddai newid y gwesty i fod yn annedd sengl yn golygu talu swm cymudol fel cyfraniad ariannol ar gyfer darparu tai fforddiadwy oddi ar y safle o dan Bolisi 48 o GDLl2 (am fod annedd marchnad agored newydd wedi'i greu). Roedd yr adroddiad yn gosod allan y cyfrifiadau ar gyfer y swm hwn, ac oherwydd eangder y lloriau roedd hyn yn £330,575. Doedd yna'r un her o anichonolrwydd wedi'i gyflwyno i leihau'r ffigwr hwn er bod yr ymgeisydd wedi datgan bod y gofynion ar gyfer tai fforddiadwy yn afresymol ac yn ddiangenrhaid.

Cynghorodd y swyddog y Pwyllgor bod Canllaw Cynllunio Ychwanegol yr Awdurdod (CCY), ar fater tai fforddiadwy, yn awgrymu y dylai'r Awdurdod ddisgwyl i ymgeiswyr i ddangos sut oedden nhw wedi gwella hyfywedd cynlluniau trwy ystyried dyluniadau amgen. Yn yr achos hwn ni fu unrhyw ystyriaeth o ddefnyddiau amgen, a sut y medrai'r rhain hefyd o bosib galluogi cyfraniad tuag at dai fforddiadwy, neu hyd yn oed ddarpariaeth tai fforddiadwy ar y safle, er enghraifft trwy addasu'r gwesty yn fflatiau. Daeth swyddogion i'r casgliad,  yn absenoldeb cytundeb i ddarparu swm wedi'i chymudo, na ellid cefnogi'r cais, a'r argymhelliad oedd gwrthod.

Anerchwyd y Pwyllgor wedyn gan yr asiant, Mr Andrew Vaughan-Harries. Dechreuodd trwy restru agweddau cadarnhaol y cais hwn - caniatâd adeilad rhestredig wedi'i roi ar gyfer newid defnydd i gartref gŵr bonheddig, a doedd swyddogion ddim wedi mynegi pryderon ynghylch colli gwesty. Fodd bynnag, roedd un mater yn dal heb ei ddatrys sef p'un a oedd hi'n deg a rhesymol i'r ymgeisydd ysgrifennu siec am draean o filiwn o bunnau. Dywedodd bod y tŷ wedi'i godi yn 1870 mewn cysylltiad â'r gadeirlan ac roedd wedi'i gadw at y defnydd hwn am 88 mlynedd. Bu wedyn yn westy am 63 mlynedd. Roedd y gwesty nawr wedi bod ar gau am ddwy flynedd ac wedi'i roi ar y farchnad ond doedd e ddim wedi'i werthu. Roedd y sefyllfa wedi'i gwneud yn waeth gan y pandemig ac roedd yr ymgeisydd wedyn wedi cael y syniad o droi'r gwesty yn dŷ unwaith eto - byddai dal i fod angen y llefydd staff ar wahân i gynorthwyo i redeg y lle. O ran yr asesiad dichonolrwydd cynghorodd Mr Vaughan-Harries, am nad oedd angen fawr ddim gwaith i droi'r gwesty yn dŷ, ni wnâi'r asesiad awgrymu unrhyw ddull o leihau'n sylweddol y swm chwerthinllyd oedd ei angen. Doedd e ddim yn credu bod y Canllaw Cynllunio Ychwanegol wedi'i ysgrifennu gyda'r math yma o gais mewn golwg. Gofynnodd i'r Aelodau felly i gymryd agwedd synnwyr cyffredin a rhoi caniatâd i alluogi newid y gwesty nôl yn dŷ. Oni wneir hynny byddai gan ei gleient eiddo nad oedd am ei redeg fel gwesty ond na fedrai fyw ynddo; o ganlyniad byddai cyflwr yr eiddo yn gwaethygu.

Gofynnodd yr Aelodau os oedd yna unrhyw hyblygrwydd yn y swm oedd i'w thalu neu sgôp i'r eiddo gael ei osod ar y farchnad yn amodol ar dalu'r cyfraniad. Cynghorodd yr asiant ei fod wedi'i osod ar y farchnad fel gwesty ers 2-3 blynedd ar draws y wlad ac mewn arwerthiant ond heb lwyddiant. Ond ni chafodd ei farchnata fel tŷ am y byddai'r cwestiwn yn cael ei holi ynghylch caniatâd cynllunio a byddai prynwyr yn ymwybodol wedyn o'r cyfraniad oedd yn ofynnol.

Cynghorodd y swyddog bod yna dystiolaeth fod cartrefi urddasol wedi dod yn fwy dymunol o ganlyniad i'r pandemig ac awgrymodd efallai bod yna brynwr fyddai'n barod i neilltuo'r cyfraniad. Ychwanegodd bod cyfrifiadau'r cyfraniad wedi'u gosod allan yng Nghanllaw Cynllunio Ychwanegol yr Awdurdod a'r broses o herian y swm oedd trwy gyflwyno asesiad dichonolrwydd. Gofynnodd Aelod arall gwestiwn ynghylch amseriad y cyfraniad a chynghorodd y swyddog fod hwn gan amlaf yn cael ei dalu ar y preswyliad cyntaf. Y cyfnod ar gyfer cyflwyno Cytundeb Unochrog gan amlaf oedd tri mis, ond gellid cytuno ar gyfnod hirach i ganiatáu cyfnod marchnata hirach.

Gobeithiai'r aelodau y byddai asesiad dichonolrwydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o gais yn y dyfodol ac y byddai hynny'n caniatáu negydu swm i'w dalu a fyddai'n dderbyniol i bob parti. Cafodd cynnig i wrthod ei roi gerbron a'i eilio.

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rheswm canlynol:**

1. **Nid yw'r ymgeisydd yn bwriadu ymrwymo i rwymedigaeth cynllunio o dan Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i sicrhau'r swm cymudol gofynnol tuag at dai fforddiadwy yn unol â gofynion Polisi 48 o Gynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2020) a Chyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol Tai Fforddiadwy dros dro'r Awdurdod.**

*[Gofynnodd y Cynghorydd M James i'r ffaith iddo atal ei bleidlais gael ei gofnodi ar y cais a nodwyd uchod am ei fod wedi colli cysylltiad ac nad oedd wedi clywed y drafodaeth yn gyflawn.]*

(e) CYFEIRNOD: NP/20/0421/OUT
YMGEISYDD: Mr D Harries
CYNNIG: Dymchwel yr adeiladau diwydiannol presennol ac adeiladu dwy annedd (pob mater wrth gefn)

LLEOLIAD: Yr hen waith Concrid GWLA, y tu ôl 89, Heol Non, Tyddewi, Sir Benfro, SA62 6NU

Adroddwyd bod y cais yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor am fod argymhelliad y swyddog yn wahanol i eiddo Cyngor y Ddinas. Roedd y safle yn gorwedd oddi fewn ffiniau canol Tyddewi ac roedd yn dir llwyd yn cynnwys tir diwydiannol, adeiladau a lloriau concrid yn gysylltiedig â gwaith concrid GWLA, ac wedi'i ddefnyddio'n lled ddiweddar fel iard adeiladwyr.

Roedd swyddogion wedi dod i'r casgliad bod safle tir llwyd o'r fath yn agos at ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau heb fod angen dibynnu ar gerbyd yn brin. Er wedi'i gyflwyno'n amlinellol, gyda phob mater wrth gefn, roedd y cynnig yn awgrymu dwy annedd fawr ar wahan. Fodd bynnag, yn seiliedig ar bolisi'r Awdurdod o wneud defnydd effeithiol o dir ar gyfer datblygu, roedd y swyddogion o'r farn bod yna botensial i ddatblygu'r safle ar gyfer pedair annedd resymol eu maint, yn cynnwys un annedd fforddiadwy, ac roedd y cyd-destun ar gyfer hynny wedi'i sefydlu oddi fewn i'r lleoliad ac yn union gyferbyn i'r safle. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gyda'r cais cyfredol yn annigonol i ddangos nad oedd y fath gynllun yn bosibl, a'r argymhelliad oedd gwrthod, gyda'r prinder darpariaeth o ymrwymiad unochrog i sicrhau cyfraniad tuag at dai fforddiadwy yn ffurfio'r ail reswm dros wrthod.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod sylw pellach wedi'i gyflwyno gan yr Asiant yn datgan bod ei gleient yn barod i gyflwyno cytundeb unochrog pe bai caniatâd cynllunio yn cael ei roi. Hefyd doedd dwysedd uwch o dai ddim yn bosib oherwydd y mynediad. Roedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi nodi na ddylid darparu mwy na phum annedd ar y safle.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr Asiant, Mr Andrew Vaughan-Harries, wedyn. Cadarnhaodd bod ei gleient yn barod i lofnodi ymrwymiad unochrog ond oherwydd yr argymhelliad i wrthod roedd yn dymuno osgoi gwariant dianghenraid. Cynghorodd pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo byddai cytundeb yn cael ei gyflwyno o fewn mis. Aeth Mr Vaughan-Harries yn ei flaen i esbonio bod ei gleient yn adeiladwr o fewn cyrraedd oed ymddeoliad a'i fod yn defnyddio'r safle fel iard adeiladwr. Nodwyd mai dim ond 12 mlynedd ynghynt y rhoddwyd caniatâd i godi annedd sengl ar y safle ond cydnabyddid bod hyn cyn y Cynllun Datblygu Lleol presennol; y cynllun mewn golwg nawr fel roedd wedi'i gyflwyno oedd ar gyfer dwy

uned. Nodwyd bod y cynllun hwn wedi'i gefnogi gan Gyngor Dinas Tyddewi am y byddai'n gwella effaith weledol ac amgylcheddol y safle. Roedd yr Awdurdod Priffyrdd hefyd wedi rhoi sêl bendith ar y cynllun ar ôl dweud i gychwyn bod yna gyfyngiad ar y nifer o anheddau y gallai'r safle ei gymryd oherwydd cyfyngiadau'r mynediad - ei led a gwelededd. Roedd yna hefyd Hawl Tramwy poblogaidd ar hyd y feidr ac am nad oedd yn debygol y byddai fyth yn cael ei mabwysiadu ni fyddai palmant yn cael ei ddarparu.

Aeth Mr Vaughan-Harries yn ei flaen i nodi bod Polisi 51 yn gofyn am leiafswm dwysedd oni bai y gellid dangos bod yna broblemau, a dadleuodd mai dyna oedd y sefyllfa o ran y safle hwn oherwydd y mynediad gwantan, absenoldeb palmentydd, gwelededd gwael a'r defnydd o'r feidr fel Hawl Tramwy gan gerddwyr. Nododd hefyd bod y feidr yn caniatáu mynediad at garejis yn eiddo i dri eiddo pellach ac roedd o'r farn nad oedd hyn wedi'i ystyried wrth gyfrifo'r nifer o gerbydau a ddefnyddiau'r feidr.

Aeth yr Asiant yn ei flaen i ddweud bod y broblem arall o ran dwysedd uwch o anheddau ar y safle yn ymwneud â'r Cynllun Draenio Trefol Cynaliadwy (CDTC), ac am nad oedd ei gleient yn berchen ar unrhyw dir gerllaw, roedd yn pryderu nad oedd yno dir digonol ar gyfer draenio dŵr iddo. Ac yn olaf, amheuodd p'un a fyddai gan Gymdeithas Dai ddiddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb o annedd sengl, gan eu bod yn ffafrio delio â safleoedd mwy o faint.

Gofynnodd un Aelod p'un a oedd cyfrifiadau wedi'u gwneud ynghylch draenio dŵr wyneb ac atebodd yr Asiant nad oedd cyfrifiadau o'r fath wedi'u gwneud am fod y rhain gan amlaf yn cael eu gwneud gan beirianwyr arbenigol ar ôl sicrhau caniatad cynllunio, ond, fodd bynnag, gan fod y cleient yn adeiladwr roedd ganddo radd o wybodaeth ynghylch y mater, fel roedd gan yr Asiant ei hun. Cadarnhaodd hefyd na chysylltwyd â'r Gymdeithas Dai i holi ynghylch eu parodrwydd i reoli annedd sengl.

Atebodd y swyddog bod CDTC wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf ac erbyn hyn yn medru gwneud defnydd o dir o dan ffyrdd a llecynnau parcio. Nododd hefyd mai dim ond un eiddo oedd yn gwneud defnydd cyson o'r feidr i fynd at garej a bod y lleill yn cyrraedd eu garejis ar hyd ffyrdd gwahanol.

Holodd rhai Aelodau am ddwysedd ar safle gerllaw ond doedd gan y swyddogion ddim gwybodaeth ar y pryd, a nodwyd gan fod y cais wedi'i gymeradwyo o dan GDLI1 roedd y cyd-destun polisi wedi bod yn wahanol, ac o'r herwydd roedd yn anodd cymharu'r ddau safle.

Cytunai'r Aelodau bod hwn yn gyfle prin i ddatblygu safle tir llwyd mewn modd ystyrlon er budd y gymuned, a doedden nhw ddim yn credu fod y cais ger eu bron wedi llwyddo i gyflawni'r nod hwn. Cafodd cynnig i wrthod y cais ei roi ger bron a chafodd ei eilio. Awgrymwyd y dylai'r ymgeisydd gynyddu'r dwysedd a mynegwyd gobaith y gellid dod i gyfaddawd derbyniol wrth gyflwyno cais yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

1. **Nid yw dwysedd arfaethedig y datblygiad yn unol â gofynion Polisi 51 Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 a'r cyfarwyddyd oddi fewn i Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018).**

2. **Dim ymrwymiad unochrog i sicrhau cyfraniad tuag at dai fforddiadwy wedi'i ddarparu ac mae'r cais o'r herwydd yn groes i Bolisi 49 Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2**

*Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.25 a 11.35am.*

*[Doedd y Cynghorydd A Wilcox ddim yn bresennol yn ystod y drafodaeth ynghylch y cais canlynol]*

| | | |
|---|---|---|
| (f) | CYFEIRNOD: | NP/20/0576/FUL |
| | YMGEISYDD: | Mr S Joules |
| | CYNNIG: | Ail-leoli'r caffi presennol i adeilad newydd ac ardal patio allanol cysylltiedig |
| | LLEOLIAD: | Canolfan Arddio St Ishmaels, Llanismel, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 3SX |

Adroddwyd bod y cais hwn am wella cyfleusterau caffi a newid gosodiad y ganolfan arddio er budd y busnes a'r cwsmeriaid. Byddai llecyn presennol y caffi yn cael ei ail-ddefnyddio fel ystafell staff ac ardal arddangos manwerthu canolfan arddio ychwanegol.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr ei bod wedi gosod y cais ar agenda'r Pwyllgor am fod ceisiadau blaenorol ar y safle wedi bod yn destun cryn drafod gan y Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad yn cynghori bod y cynllun arfaethedig yn cael ei ystyried yn dderbyniol ac na fyddai'n effeithio'n andwyol ar y rhan hwn o'r Parc Cenedlaethol, na fyddai'n effeithio ar Henebion Cofrestredig gerllaw, a bod y raddfa, ffurf a dyluniad yn briodol ar gyfer y math hwn o ddatblygiad. Roedd yr effaith ar fwynder preswyl yn cael ei ystyried yn dderbyniol, a byddai amodau'n cael eu gosod i sicrhau mai parhad

pwrpas sylfaenol y safle fyddai fel canolfan arddio am ei fod mewn lleoliad cefn gwlad. Gellid cynnwys amodau eraill i ddiogelu'r coed a'r cloddiau sydd yno ac i reoli effaith golau ar fioamrywiaeth.

Daethpwyd i'r casgliad felly bod y datblygiad yn unol â bwriadau polisïau lleol a chenedlaethol a gellid ei gefnogi gydag atodlen o amodau priodol. Yr argymhelliad oedd cymeradwyo.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr Asiant, Mr Andrew Vaughan-Harries wedyn. Cynghorodd bod hwn yn fusnes llwyddiannus a bod yna fuddsoddi sylweddol wedi bod dros y blynyddoedd diweddar gan y perchennog. Am fod yr hen gaffi'n edrych yn anniben gofynnid am ganiatâd i'w adleoli i leoliad mwy atyniadol a haws i'w reoli. Cadarnhaodd yr Asiant y byddai'n cynnwys toiled i'r anabl ac y byddai swydd llawn amser ychwanegol yn cael ei chreu. Nododd bod y safle wedi'i guddio'n dda ac roedd yr ymgeisydd yn fodlon â'r amodau a awgrymwyd. Ei obaith felly oedd y byddai'r Aelodau'n cefnogi'r argymhelliad i gymeradwyo a oedd ger eu bron.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseru'r cais, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, diogelu coed a chloddiau, goleuo, lefelau lloriau wedi'u cwblhau, defnydd ar gyfer gwerthu cynnyrch gardd gyda chaffi at ddefnydd atodol yn unig, oriau agor a therfynu'r defnydd o'r adeilad caffi presennol ar gyfer y pwrpas hwnnw ar ôl ei adleoli.**

*[Dychwelodd y Cynghorydd A Wilcox i'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ynghylch y cais canlynol ac o'r herwydd ni phleidleisiodd.]*

(g)

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD: | NP/20/0614/FUL |
| YMGEISYDD: | Ms J Holding |
| CYNNIG: | 6 tŷ fforddiadwy mewn cysylltiad â 6 gweithdy gwaith coed, cyfleuster cymunedol a chyfleuster prosesu a sychu coed. |
| LLEOLIAD: | Allt Pantmaenog, Rhos-y-bwlch, Clunderwen, Sir Benfro, SA66 7QY |

Adroddwyd bod y cais hwn gerbron y Pwyllgor am ei fod yn gais o bwys oedd yn wyriad oddi ar Gynllun Datblygu Lleol 2. Roedd y cais yn gofyn am ganiatâd ar gyfer chwech o dai deulawr ar wahan wedi'u trefnu mewn bwa oddi amgylch adeilad gweithdy canolog ac wedi'i gysylltu (trwy feini prawf preswylio) â chwe gweithdy mewnol oddi fewn i'r adeilad hwn a fyddai hefyd yn cynnwys gofod canolog atriwm gyda thoiledau, cegin fach a gofod swyddfa. Cynigid gwneud y gofod canolog hwn yn fan cyfarfod cymunedol yn ogystal ag ystafell fechan wedi'i lleoli yng nghornel yr

adeilad; eglurodd y swyddog yn y cyfarfod ei bod o'r farn iddi gamddehongli defnydd cymunedol o'r fath gan gredu y byddai'r gofod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant gan Down to Earth, y fenter gymdeithasol a oedd yn gyfrifol am y cyfleuster. Roedd yna gynnig hefyd ar gyfer adeilad sychu a phrosesu/llifio coed ar wahan ar ben dwyreiniol y safle datblygu.

Roedd y safle mewn lleoliad cefn gwlad, i'r gogledd-orllewin o bentref Rhos-y-bwlch ac wedi'i rannu oddi wrth ymyl ffin y Canol gan dir heb ei ddatblygu mewn defnydd amaethyddol a choedwigol. Oherwydd ei leoliad, roedd y swyddogion o'r farn fod y cynnig, mewn egwyddor, yn groes i bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol oedd yn ceisio rheoli datblygiadau yng nghefn gwlad. Doedd dim gwybodaeth ddigonol wedi'i ddarparu i ddangos bod y safle penodol hwn yn angenrheidiol o ran y cynnig, a nododd y swyddogion y bydden nhw'n fwy cefnogol i'r cynllun pe bai wedi'i leoli gerllaw pentref Rhos-y-bwlch.

Yn ychwanegol, doedd y tai fforddiadwy arfaethedig ddim yn cyfateb i'r diffiniad arferol o dai fforddiadwy, am nad oedd dim esboniad sut fyddai'r eiddo yn cael eu gosod a'u rheoli gan landlord cymdeithasol cofrestredig, na chwaith cytundeb cyfreithiol i sicrhau y bydden nhw'n fforddiadwy yn y lle cyntaf ac am byth. Doedd y busnes ddim eto wedi'i sefydlu a doedd yna'r un cynllun busnes wedi'i gyflwyno tra nad oedd y cyswllt rhwng y tai a'r gweithdai wedi'i esbonio'n foddhaol.

Tra byddid yn creu cyfle i rai o breswylwyr y tai i fyw a gweithio yn agos i'w cartref roedd cynaladwyedd y cynnig, o ran anghenion ehangach y deiliaid wedi'i leihau, oherwydd y lleoliad anghysbell a dibyniaeth yn ôl pob tebyg ar gludiant preifat, am y byddai siwrneai ar gludiant cyhoeddus i ganolfannau mwy lle fyddai yna amrediad da o wasanaethau a chyfleusterau yn cymryd amser. Byddai'r safle yn amlwg yn weladwy oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol sydd wedi'i warchod yn ogystal â thirwedd hanesyddol dros ardal eang o'r gogledd, yn ymestyn i gopa Bryniau Preseli a byddai'n ymddangos fel datblygiad ynysig yng nghefn gwlad. Yr argymhelliad felly oedd gwrthod ond pe bai Aelodau am gymeradwyo'r cais byddai rhaid wrth ganiatâd Llywodraeth Cymru o ganlyniad i gylchlythyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Yn y cyfarfod adroddodd yr Aelodau eu bod wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol wrth yr ymgeisydd trwy e-bost a thrwy'r post, a nododd y swyddog bod yr ymgeiswyr wedi cyflwyno nifer o adroddiadau ers iddi hi ysgrifennu ei hadroddiad gan gynnwys asesiad tirwedd. Roedd Cadw wedi ymateb i'r ddogfen hon ac o'r herwydd doedd dim angen Amod 2 fel roedd wedi'i osod allan yn yr adroddiad. Ond yn y cyfamser roedd cyngor dros dro ar gyfer ceisiadau cynllunio oedd yn debygol o gynyddu lefelau ffosffad mewn afonydd, oddi fewn i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

newydd ei gyhoeddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru,  ac roedd hyn yn berthnasol i'r cais. Roedd yr ecolegydd wedi gofyn am fwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd ond doedd dim wedi dod i law hyd yn hyn a gwnaed cais i hyn gael ei osod fel rheswm yn lle'r rheswm gwreiddiol dros wrthod.

Ychwanegodd y swyddog taw yn groes i'r hyn roedd yr ymgeiswyr wedi'i ddweud ni ellid ystyried y datblygiad fel menter wledig am nad oedd yn bodloni'r meini prawf wedi'u gosod allan yn Nodyn Cynghori Technegol (NCT) 6. Ni ellid chwaith ei ystyried yn Ddatblygiad Un Blaned am ei bod yn ofynnol i'r preswylwyr brofi  eu bod yn creu incwm o'r tir ond am nad oedden nhw'n berchen y goedwig ni ellid dangos hynny.

Y siaradwr cyntaf oedd Mr Tony Pasternak, Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Noltwn a'r Garn (YTC) a oedd wedi'i greu yn ddiweddar i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer preswylwyr oedd yn lleol i Noltwn a'r Garn a'r rheiny gyda chysylltiad lleol. Atgoffodd y Pwyllgor o'r prinder affwysol o dai ar draws y Deyrnas Unedig a oedd wedi'i wneud yn waeth wrth golli stoc dai yn ail-gartrefi, a nododd nad oedd Sir Benfro yn rhydd o'r sefyllfa hon wrth i'r Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor Sir Penfro osod amcanion uchelgeisiol er mwyn darparu tai fforddiadwy. Dywedodd bod yr YTC yn cefnogi'r cynllun hwn am ei fod yn cynrychioli llawer o nodweddion datblygiad tai fforddiadwy wedi'i arwain gan y gymuned. Ond credai bod y cynllun ym Mhantmaenog yn llawer mwy na dim ond darparu tai am ei fod yn anelu i gyfrannu at gynaladwyedd, ac at adeiladu economi cylchynol wedi'i ategu gan ynni adnewyddadwy.  O ran y diffyg cludiant roedd o'r farn mai cerbydau trydan oedd y dyfodol ac fe gyfeiriodd at gynllun tai fforddiadwy arall yn Sir Benfro oedd yn dibynnu ar gerbyd trydan a phwynt gwefru wedi'i rannu. Roedd yn deall nad oedd yr agwedd arloesol tuag at fyw a gweithio yn darparu troshaen berffaith o ran pwrpas yr Awdurdod o ddatrysiad i gyflawni'r hyn a allai fod yn brosiect arobryn i Sir Benfro, a darparu mwy o fomentwm ar gyfer tai fforddiadwy yn Sir Benfro.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr Asiant, Mr Mark McKenna wedyn. Esboniodd ei fod yn Gyd-sefydlydd a Rheolwr Gyfarwyddwr Down to Earth, menter gymdeithasol ar Benrhyn Gŵyr oedd mewn bodolaeth ers 15 mlynedd, a chyda enw rhyngwladol am reoli gofal iechyd  ac isadeiledd addysg ar gyfer y mwyaf bregus o fewn cymdeithas.  Roedd gan y sefydliad dri safle yng Ngŵyr, ac eglurodd bod dau yn addysgiadol ac un yn cael ei adeiladu a fyddai'n darparu chwech tŷ ar y cyd â Grŵp Tai Arfordirol. Roedd yr olaf yn defnyddio'r un model oedd yn cael ei gynnig ym Mhantmaenog, a chan ei fod wedi'i ganoli yng Ngŵyr roedd hefyd yn dangos dealltwriaeth y sefydliad o dirweddau wedi'u dynodi. Aeth Mr McKenna yn ei flaen i ddweud nad oedd yn credu bod yr adroddiad ger bron y Pwyllgor yn wrthrychol nac yn gytbwys, ac roedd felly wedi anfon gwybodaeth ychwanegol i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Roedd hefyd o'r farn bod y cais yn cydymffurfio â pholisïau 7, 43, 49 a 54 o'r CDLl2, gan nodi bod dehongli'r rhain yn fater goddrychol.

Credai Mr McKenna bod yna gamddealltwriaeth sylfaenol ynghylch y cynllun, nad oedd yn ymwneud â thai ond yn ymwneud â chefnogi datblygu economaidd trwy goedwigaeth arobryn. Dywedodd bod pawb yn gwybod am yr angen i greu swyddi gyda rhai pobl yn awyddus i fyw a gweithio yn yr un man, ac roedd y pandemig wedi tynnu sylw at hyblygrwydd model o'r fath a fyddai'n diddymu teithio. Byddai'r datblygiad yn darparu hwb busnes-meicro ar gyfer mentrau cymdeithasol yn gysylltiedig â choedwigoedd, yn cefnogi pobl leol i ddatblygu busnesau cynaliadwy trwy ddiogelwch tenantiaeth saith mlynedd. Cadarnhaodd y byddai'r tai yn parhau yn fforddiadwy am byth.

Nododd yr Asiant bod yna ganiatâd ar hyn o bryd ar gyfer sied i sychu a phrosesu coed mewn lleoliad llawer mwy ymwthiol, a chredai na fyddai effaith gweledol y datblygiad arfaethedig mor ymwthiol â hynny. Credai y gellid goresgyn pob gwrthwynebiad arall. Dywedodd bod yna gefnogaeth ryfeddol i'r prosiect a chyfeiriodd at gyllid o £2m wrth Lywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill ond, fodd bynnag, roedd hwn yn fater sensitif gan fod rhaid ei wario erbyn diwedd mis Mawrth. Eglurodd ei fod yn credu y gellid cyflawni hyn pe bai caniatâd cynllunio yn cael ei roi gan y Pwyllgor y diwrnod hwnnw. Terfynodd trwy ofyn i'r Aelodau i gefnogi cyfle am adfywio economaidd a fydd yn newid bywydau

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau i Mr McKenna ac mae peth o'r eglurhad a ddarparwyd wedi'i osod allan yn y paragraffau uchod. Fe fynegon nhw bryder ynghylch anheddu gan bobl o'r tu fas i Sir Benfro, a ble fyddai'r bobl yn byw unwaith y daw eu tenantiaeth saith mlynedd i ben. Esboniodd Mr McKenna ymhellach y byddai'r datblygiad yn cael ei adeiladu gan oedolion a phobol ifanc wedi'u cyfeirio gan y Bwrdd Iechyd ac elusennau lleol, ac fe fydden nhw'n cael y cyfle cyntaf i sicrhau tenantiaeth. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd y byddai'r tenantiaid i gyd yn dod o gofrestr Tai Sir Benfro. Nododd Mr McKenna fod yr awgrym y dylai'r tai gael eu lleoli gerllaw pentref Rhos-y-bwlch wedi'i wneud yn rhy hwyr ar gyfer cynllun wedi'i ddiwygio i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru o ran cyllido.

Tra roedd yr Aelodau yn gefnogol o fwriadau'r prosiect mynegwyd pryder ynghylch lleoliad sensitif y datblygiad, gan gynnwys ei effaith ar yr iaith Gymraeg, a hefyd ynghylch cyflwyno cymaint o wybodaeth yn hwyr yn y broses a fyddai wedi bod o fudd o ran deialog pellach gyda'r swyddogion, ac o bosib ymweliad safle gan y Pwyllgor. Ond cydnabuwyd, o dan yr amgylchiadau, doedd dim amser digonol ar gyfer hynny. Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu o glywed sylwadau Mr McKenna nad oedd adroddiad y swyddog yn gytbwys ac roedden nhw'n anghytuno gyda'i

safbwynt gan amddiffyn y swyddog fel Uwch Gynllunydd gyda'r Awdurdod gan gymeradwyo ei phroffesiynoldeb.

Cafodd yr argymhelliad, gan ddisodli'r ail reswm dros wrthod gydag un yn ymwneud ag effaith y datblygiad ar yr AGA, ei gynnig a'i eilio.

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

**1. Byddai'r datblygiad arfaethedig oherwydd ei leoliad mewn cefn gwlad agored yn cael effaith niweidiol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, ac yn groes i bolisiau cynllunio lleol a chenedlaethol, yn benodol Polisïau 7, 8, 9 & 15 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020) ac egwyddorion PPW 10 (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018).**

**2. Mae'r wybodaeth i gefnogi'r cais yn annigonol i benderfynu effaith y datblygiad ar Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Cleddau. Nid yw'r cynnig felly yn unol â gofynion Polisi 10 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 (2020).**

**3. Mae'r anheddau wed'u gosod heb ofod mwynder digonol oddi wrth fannau cynhyrchu diwydiannol ac o'r herwydd yn groes i egwyddorion Polisi 30 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (mabwysiadwyd 2020).**

*[Gofynnodd y Cynghorydd M James i'r ffaith iddo atal ei bleidlais gael ei gofnodi ar y cais a nodwyd uchod am ei fod wedi colli cysylltiad ac nad oedd wedi clywed y drafodaeth yn gyflawn.]*

Cyflwynodd Dr R Plummer, Dr R Heath Davies, Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd M Evans eu hymddiheuriadau gan adael y cyfarfod yn y fan hon.

**7. Apeliadau**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc ar 3 apêl (yn erbyn caniatâd cynllunio a roddwyd gan yr Awdurdod) a oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, a manylodd ynghylch pa gamau oedd wedi'u cyflawni hyd yma ymhob achos.

Yn ychwanegol nodwyd bod apêl bellach wedi'i chyflwyno'n ddiweddar mewn cysylltiad â NP/19/0522 Maes Carafanau a Gwersylla Buttyland Maenorbŷr ac roedd y dogfennau dechreuol wedi'u darparu ar gyfer yr Arolygiaeth Cynllunio.

**NODWYD.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 heb eu diwygio.